**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/0062/4

David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Casnewydd
NP10 8AR

david.jones@qualifications.wales

Chwefror 2024

Annwyl David,

**Llythyr cylch gwaith tymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymwysterau Cymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau'r cylch gwaith a'r dyraniad grant i Cymwysterau Cymru ar gyfer 2024-25. Rhoddir y grant i alluogi Cymwysterau Cymru i gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae adran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gyrraedd y nodau pennaf, sef sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a hybu hyder yn y cymwysterau a'r system ymhlith y cyhoedd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru roi sylw dyledus i'r materion a restrir yn adran 3(2) wrth fynd ati i ystyried beth sy'n briodol mewn perthynas â chyflawni'r nodau pennaf hynny.

Mae adran 51 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru ddarparu cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â chymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Bydd fy swyddogion yn ysgrifennu atoch i ofyn am gyngor fel y bo'n briodol.

Fel y gwyddoch, nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu eich amcanion strategol gan fod Deddf 2015 yn rhoi rhyw fesur o annibyniaeth ichi fel rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol. Fodd bynnag, mae rhaid ichi baratoi Adroddiad Blynyddol, y creffir arno gan y Senedd, yn ogystal â Chynllun Busnes sy'n rhoi manylion eich blaenoriaethau gweithredol am y flwyddyn i ddod.

Mae Cymwysterau Cymru yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi cyflawni cerrig milltir

sylweddol dros y 12 mis diwethaf drwy gyhoeddi'r Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer pob un o'r TGAU a fydd yn ffurfio'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU sydd ar gael o 2025. Rydych hefyd wedi ymgynghori a chyhoeddi penderfyniadau ar eich Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, gan brofi a chadarnhau eich cynigion ar gyfer yr hyn a fydd ar gael i ategu'r gyfres newydd honno o gymwysterau TGAU o 2027. Fel yr ydym wedi trafod, mae'n hanfodol bod egwyddorion ac uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau i fod wrth wraidd y rhaglen hon o ddiwygio cymwysterau. Rwy'n cydnabod bod angen ichi ystyried sut mae eich gwaith yn cyd-fynd â gwaith partneriaid a'r system ehangach i liniaru'r risg o greu beichiau ychwanegol arnoch chi ac eraill yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Mae adolygiad annibynnol Cymru o Gymwysterau Galwedigaethol bellach wedi dod i ben, a'r adroddiad wedi'i gyhoeddi. Mae sicrhau cynnig cynaliadwy a dwyieithog sy'n rhoi llwybrau cynnydd clir i ddysgwyr, yn parhau i fod yn flaenoriaeth imi. Yn ogystal â hynny, mae'n bwysig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i liniaru'r risg y gallai diwygiadau sy'n cael eu llywio gan lywodraeth y DU beri i'n dysgwyr. Rwy'n cydnabod y cynnydd yr ydych wedi'i wneud mewn perthynas â'ch adolygiadau o'r sector, ac yn croesawu eich ymrwymiad parhaus i'r gwaith pwysig hwn. Yn dilyn cyhoeddi argymhellion yr adolygiad, rwy'n ymwybodol bod trafodaethau'n parhau â'm swyddogion i benderfynu ar y camau nesaf, gan gynnwys y ffordd orau y gall Cymwysterau Cymru weithio ar y cyd â phartneriaid eraill yn y system addysg i ymateb i'r argymhellion, a pha gyllid pellach y gallai fod ei angen ar Cymwysterau Cymru i gyflawni ei rhan wrth fynd â'r gwaith rhagddo. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn ymwybodol bod y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal yng nghyd-destun cyfyngiadau sylweddol ar gyllidebau'r sector cyhoeddus. Wrth i'r gwaith barhau i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol a Hyfforddiant, bydd y berthynas rhyngoch chi fel rheoleiddiwr cymwysterau a'r comisiwn newydd hwn yn hanfodol. Rwy'n cydnabod eich ymroddiad i'r datblygiad hwn hyd yma, ac edrychaf ymlaen at eich ymdrechion parhaus i gefnogi'r comisiwn a materion galwedigaethol a thrydyddol cysylltiedig ehangach wrth i'r comisiwn ddatblygu i fod yn gwbl weithredol.

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi cymryd cam pwysig arall tuag at newid yn ôl i drefniadau arholi cyn y pandemig, ac mae'r gyfres o arholiadau eleni yn parhau â'r daith honno. Rwy'n falch bod llesiant dysgwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein proses gwneud penderfyniadau, gan gydnabod hefyd ei bod yn bwysig inni fod yn ofalus ac yn sensitif wrth lywio'r broses o newid yn ôl i'r trefniadau a safonau asesu a oedd gennym cyn y pandemig.

Fel corff cyhoeddus, disgwylir ichi gynnal datblygu cynaliadwy a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys edrych ymlaen i'r tymor hir, cynnwys pobl, cydweithio â phartneriaid, a defnyddio dull integredig ac ataliol fel rhan o'ch gwaith. Mae'n parhau i fod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i ychwanegu Cymwysterau Cymru at y rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn cadarnhau'r sefyllfa, ac yn rhoi'r dyddiad cychwyn, mewn llythyr ar wahân.

Rwyf wedi ysgrifennu atoch mewn llythyr arall i nodi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer 2024-25. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chi i reoli pwysau costau blynyddol y cyfeirir atynt yn y llythyr cynnig grant, ac i ystyried y ffordd orau o ddiwallu eich anghenion yn y dyfodol.

Fel Corff Cyhoeddus a noddir, dylech ddarllen y llythyr hwn ar y cyd â'ch Dogfen Fframwaith sy'n ffurfioli'r trefniadau goruchwylio sydd ar waith mewn perthynas â'ch cangen nawdd.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language